

**Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll**  
Cofnodion Cyfarfod 25<sup>ain</sup> Mawrth 2014

**Presennol:** A. Mummery, A. Jones, J. Roberts, Dennis Williams, Meirion Jones, G. Parry, A. Thomas, H. Huws, B. Jones, P. Roberts

**1. Ymddiheuriadau:** Mervyn Jones, A. Williams

**2. Datganiadau Diddordeb.** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

**3. Materion y Cyngor Sir**

3.1 Modurdy ger Plas Garnedd/Plas Mona Swyddogion Cynllunio'r Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater.

3.2 Cyfarfod 10fed Ebrill yn ymwneud â chynlluniau Ynys Ynni a'r buddiant posib i ardaloedd lleol. G. C. Jones/H.Huws i fynychu os ar gael.

3.3 Cyfarfod Cyswllt Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned ym mis Mehefin. G. C. Jones i fynychu.

3.4 Proses ymgynghori ar gyllideb y Cyngor Sir – y broses yn cychwyn yn gynharach yn flwyddyn eleni er mwyn rhoi cyfle teg i'r cyhoedd ymateb ar y cynlluniau.

**4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion 25 Chwefror 2014**

Mân gywiriadau i eitemau 5.2, 12.4 a 13.5.2.

Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

5.1 Safle we - A. Jones mewn trafodaeth gyda Menter Môn ynglŷn ag ail wampio'r safle presennol yn hytrach na chreu safle newydd.

5.2 Drws y pafiliwn. Derbyniwyd 3 pris ar gyfer ail osod drws ar y pafiliwn - £550, £646 & TAW a £875 & TAW.

Penderfynwyd gofyn i Mark Pohlmeier ymgymryd â'r gwaith am £646 & TAW gan fod y pris rhatach am ddrws pren ac nid un metel.

5.3 Cynllun Adfywio Pentrefol - Nodwyd bod y gwaith i gyd wedi do di ben a bod y cynllun wedi'i gwblhau. Angen hysbysebu'r gwaith yn y wasg. Nodwyd bod canmoliaeth yn y pentref am y blodau.

Nodwyd bod Medwyn Williams wedi rhoddi'r hadau ar gyfer y cynllun blodeuo a chofio'r Rhyfel Byd Cyntaf a bydd y gwaith plannu'n digwydd yn ystod mis Ebrill. Diolchwyd i Medwyn am ei rodd garedig.

Y Clwb Bowlio hefyd wedi planu blodau gwyllt gyda grant gan Cadw Cymru'n Daclus.

5.4 Draenen ddu angen ei dorri yn y Gors. Colin Roberts i weithredu.

5.5 Cais Cynllunio Glanllyn – y Clerc wedi cael sgwrs gyda'r ymgeisydd - y cais wedi'i dynnu'n ôl.

5.6 Ymgynghoriad Pont Britannia - Prif negeseuon - rhanddeiliaid yn cefnogi pont fflat os bydd rhaid cael trydedd bont.

Blaenoriaethau yn eu trefn - 1. Tagfa 2. Diogelwch. 3. Treftadaeth. 4. Cost.

Diolchwyd i H. Huws am ei gwaith.

5.7 Ymgynghori Adeilad Niwclear - Cwestiwn ynglŷn â wast yn y dyfodol. Dim ymateb wedi'i dderbyn gan swyddogion/cynghorwyr sir. Cadw'r cwestiwn mewn golwg yn y cyfarfodydd i'r dyfodol.

5.8 Nodwyd bod bagiau baw ci yn cael ei gadael ar safle'r Gors. Cadw golwg ar y sefyllfa.

5.9 Coed tu cefn i'r feddygfa wedi'u torri. Dim ymateb gan y Bwrdd Iechyd hyd yma.

**6. Cofnodion Pwyllgor Arbennig parthed yr Ysgol Feithrin 12 Mawrth 2014**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**7. Materion yn codi o'r cofnodion**

Nodwyd bod llywodraethwyr yr ysgol wedi cyfarfod nos Lun. Yr ysgol yn symud ymlaen gyda'r ymgynghoriad ar ostwng oed derbyn plant i'r ysgol i 3 oed. Bydd rhaid i'r broses yma gael ei gwblhau cyn edrych ar y mater o drosglwyddo'r adeilad.

Er gwybodaeth - A. Mummery ac A. Jones i fynychu seminar ym mis Ebrill ar Drosglwyddo Tir ac Asedau.

## 8. Ceisiadau Cynllunio

- 8.1 31C411 cais i greu 2 trac beicio mynydd yn Coed Môr, Ffordd Caergybi.  
Nodwyd pryder ynglŷn â pharcio gan fod parcio yn y gilfan wedi'i gyfyngu i 3 awr.  
8.2 31C14V/1 34 Cil y Graig – dim sylw.

## 9. Cyfrifon mis Mawrth 2014

Cyflwynwyd taenlen a rhestr taliadau mis Mawrth 2014. Nodwyd bod angen edrych ar gostau trydan y clwb snwcer/neuadd goffa eto ym mis Gorffennaf. G.C. Jones a'r Clerc i weithredu.  
Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

## 10. Gohebiaeth

- 10.1 Gwahoddiad i ddiwyddiad Addysg Coetir yn Llwyn Onn.  
10.2 Penderfyniadau cynllunio – er gwybodaeth.  
10.3 Cofrestrfa Tir – Llythyr yn hysbysebu na fydd yr Arglwydd Treffos yn symud ymlaen gyda'i gais am hawliau maenorol ar dir y Cyngor Bro nac ar dir unrhyw un a ymatebodd gyda ffurflen UN4. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth yw'r sefyllfa i'r rhai na ymatebodd i'r cais gwreiddiol.

## 11. Unrhyw Fater Arall

- 11.1 Ffrindiau Parc y Gors wedi derbyn Grant Chwarae Cymunedol am £2000 ac am osod 'trimtrail' ger bron y twnnel helyg.  
11.2 Maes Parcio Refail Goch yn cael ei ddefnyddio ac yn gyson yn llawn.  
11.3 Maes Parcio'r Gors - disgwyl R.G. Hire ddoed i roi amcan bris am ail wynebu'r maes parcio.  
11.4 Anfon lluniau'r blodau a'r arwyddion i Papur Menai.  
11.5 Cafwyd adroddiad ar waith y Pwyllgor Safonau gan J. Roberts.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 29ain Ebrill 2014 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....Dyddiad